

seafish

Pecyn gwybodaeth ar gyfer penodi

# 2x Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol i Fwrdd Seafish

**DYDDIAD CAU: 13 Ionawr 2026**
**CYFEIRNOD: APPT13-25**

disability confident LEADER

Regulated by The Commissioner for Public Appointments

| | |
|---|---|
| Datganiad o Fwriad Defra | 3 |
| Gwybodaeth am Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr (Seafish) | 4 |
| Y Swydd | 5 |
| Telerau Penodi | 6 |
| Meini Prawf Hanfodol | 7 |
| Yr Amserlen | 8 |
| Y Broses Recriwtio | 9 |
| Gwrthdaro rhwng buddiannau, cwynion, diogelu data ac anghymhwystra | 10 |
| Atodiad A – 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus | 11 |
| Atodiad B – 12 Egwyddor Llywodraethu ar gyfer Cyfarwyddwyr Anweithredol Cyrff Cyhoeddus | 12 |




# Cynnwys

Mae Grŵp Defra yn arwain ar yr hanfodion: y bwyd rydym yn ei fwyta, y dŵr rydym yn ei yfed, yr aer rydym yn ei anadlu. Mae'n cynnwys bwyd, yr amgylchedd, bioddiogelwch, masnach a mwy. Mae Defra yn adran bolisi, twf, gwyddoniaeth, cyflawni a rhyngwladol.

Mae gwaith Defra yn hanfodol i gyflawni pum cenhadaeth y Llywodraeth – yn cynnwys meithrin cadernid economaidd drwy amddiffynfeydd llifogydd gwell, diogelu rhag risg bioddiogelwch, addasu i'r hinsawdd ac atebion sy'n seiliedig ar natur; creu swyddi a denu buddsoddiad yn ein sectorau dŵr a gwastraff; gweithio gyda'n sectorau fel y sector bwyd a diod; a sicrhau bod pob cenhadaeth yn addas i gefn gwlad.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, rydym wedi ymrwymo i benodi unigolion o safon uchel o gefndiroedd amrywiol i fyrddau ein cyrff cyhoeddus. Drwy ddefnyddio amrywiaeth eang o sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau, gallwn wneud ein gwaith yn fwy effeithiol, gwydn ac atebol i'r cyhoedd.

## Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal a sicrhau nad oes neb yn dioddef gwahaniaethu nac aflonyddu annheg ar sail hil, ethnigrwydd, tarddiad cenedlaethol, lliw, rhyw, hunaniaeth rhywedd, statws priodasol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, credoau crefyddol, nac oedran.

Rydym yn annog ceisiadau gan unigolion o bob cefndir ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus. Gwneir pob penodiad ar sail teilyngdod, yn dilyn proses gystadleuaeth deg ac agored a reoleiddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

## Ein Hymrwymiad o ran Anabledd

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi ymgeiswyr ag anableddau ac rydym yn falch o feddu ar statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd. Rydym yn gwarantu y bydd unrhyw ymgeisydd ag anabledd, y mae ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd, yn cael cyfweliad.

Er mwyn sicrhau proses gynhwysol, rydym wedi ymrwymo i wneud addasiadau rhesymol lle bo hynny'n bosibl ar gyfer ymgeiswyr ag anableddau. Os oes angen unrhyw addasiadau arnoch i gefnogi eich cais, ewch i'r 'Sut Mae Gwneud Cais a Chyflwyno Eich Cais' isod. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun Arweinydd Hyderus o ran Anabledd ar gael drwy'r logo Hyderus o ran Anabledd a ddangosir uchod.

# Datganiad o Fwriad Defra

Mae Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr (a elwir yn ‘Seafish’) yn gorff ar gyfer y DU gyfan sy’n cael ei ariannu gan ardollau. Mae’n canolbwyntio ar ddiwydiant ac mae’n cael ei noddi ar y cyd gan:

- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra)
- Llywodraeth yr Alban
- Cynulliad Cymru
- Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon (DAERA)

Mae Seafish yn un o Gyrff Cyhoeddus Anadrannol Defra, sy’n gweithredu ar ran y gweinyddiaethau pysgodfeydd eraill fel prif noddwr ar gyfer materion sy’n ymwneud â llywodraethu corfforaethol.

Mae Seafish yn cynnal amrywiaeth eang o weithgareddau sy’n ceisio hyrwyddo bwyta bwyd môr, gwella enw da’r diwydiant a chefnogi’r gwaith o gasglu data a darparu gwybodaeth, tystiolaeth a chyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y gadwyn gyflenwi. Mae’n cynnig canllawiau a gwasanaethau rheoleiddio i bob rhan o’r diwydiant bwyd môr, gan gynnwys dal a dyframaethu, proseswyr, mewnforwyr, allforwyr a dosbarthwyr bwyd môr, yn ogystal â bwytai a manwerthwyr.

Dros y pum mlynedd nesaf, bydd Seafish yn wynebu amrywiaeth o heriau a fydd yn gofyn am lywodraethu cadarn a goruchwyliaeth strategol. Mae sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor y sefydliad yn hanfodol. Rhaid i Seafish hefyd sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn cael effaith mewn tirwedd wleidyddol sy’n newid, a’i fod yn gallu dangos gwerth ar draws pedair gwlad y DU.

Mae’r amgylchedd gweithredu ehangach yn cyflwyno heriau pellach. Mae faint o fwyd môr sy’n cael ei fwyta yn y wlad hon wedi bod yn gostwng ers amser maith, a rhaid i ddiwydiant bwyd môr y DU addasu i newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr, costau cynyddol, ac amhariadau masnach byd-eang sy’n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd ac ansefydlogrwydd geowleidyddol. Mae Seafish yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi gwytnwch y diwydiant drwy’r cyfnod hwn o newid, gan helpu busnesau i ymateb i brinder llafur, newidiadau rheoleiddiol a heriau amgylcheddol, yn ogystal â chynnal hyder rhanddeiliaid a hyrwyddo enw da’r diwydiant. Bydd buddsoddi mewn data, arloesedd a gwybodaeth sy’n seiliedig ar dystiolaeth yn hanfodol i fynd i’r afael â’r heriau hyn a sicrhau bod diwydiant bwyd môr y DU yn gallu addasu a ffynnu.

# Gwybodaeth am Awdurdod y Diwydiant

Mae Gweinyddiaethau Pysgodfeydd y DU yn penodi dau aelod anweithredol annibynnol i fwrdd Seafish i roi cyfeiriad strategol ac arweiniad i'r sefydliad.

Mae'r bwrdd yn cyfarfod bob chwarter, ac mae'n sicrhau bod Seafish yn cael ei reoli'n briodol ac yn effeithiol drwy ddarparu arweiniad, cymorth, cyfeiriad ac arweinyddiaeth strategol. Ar hyn o bryd, mae bwrdd Seafish yn cynnwys wyth aelod anweithredol. Mae pob penodiad i'r bwrdd yn benodiadau sy'n cael eu gwneud ar y cyd gan Weinidogion Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r bwrdd yn cynnwys cymysgedd o aelodau annibynnol ac aelodau o'r diwydiant, gyda Chadeirydd a Dirprwy Gadeirydd annibynnol. Mae'r swyddi rydym yn recriwtio ar eu cyfer yn swyddi 'annibynnol', ac felly'n agored i ymgeiswyr nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau ariannol neu fasnachol yn y diwydiant bwyd môr.

Mae'r ddwy swydd ar gyfer aelodau annibynnol, ond gofynnir i un ohonynt Gadeirio Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) Bwrdd Seafish.

I gael rhagor o wybodaeth am Seafish, ewch i wefan Seafish: http://www.seafish.org/


## Disgwylir i ymgeiswyr ar gyfer y ddwy swydd wneud y canlynol:

- Darparu cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth i'r sefydliad sy'n cydbwyso blaenoriaethau'r diwydiant bwyd môr yn y DU yn ei chyfanrwydd;
- Gwella perfformiad a dal y Weithrediaeth i gyfrif gan ddefnyddio'r cynlluniau strategol a chorfforaethol;
- Sicrhau priodoldeb, rheoleidd-dra, darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran gweithrediad Seafish a darparu stiwardiaeth dros yr arian cyhoeddus a ymddiriedir i'r sefydliad;
- Sicrhau bod Seafish yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol o fewn y fframwaith a bennir gan Weinidogion;
- Cydweithio a meithrin perthynas â'r Weithrediaeth, y Llywodraeth a rhanddeiliaid allweddol eraill a chynrychioli'r sefydliad ar lefel uwch.

## Bydd ymgeiswyr sy'n gwneud cais am swydd Cadeirydd ARAC yn:

- Arwain ar gynghori Bwrdd Seafish ar faterion atebolrwydd ariannol, rheolaeth a risg sy'n effeithio ar y sefydliad a chyfrannu at rôl a chyfrifoldebau corfforaethol Bwrdd Seafish fel y nodir yng Nghylch Gorchwyl Bwrdd Seafish;
- Arwain cynlluniau archwilio mewnol ac allanol blynyddol a'u rhoi ar waith;
- Adroddiad i'r Bwrdd ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Seafish a Datganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu;
- Cefnogi'r Swyddog Cyfrifyddu Seafish a'i herio'n adeiladol i gyflawni targedau a gwerth am arian, ac i weithredu a gwella'r system rheolaethau mewnol a rheoli risg yn barhaus.

# Telerau Penodi



### Tâl

£5,670 Cyfarwyddwr Anweithredol y Bwrdd

£9,450 Cadeirydd ARAC

### Ymrwymiad Amser

Cyfarwyddwr Anweithredol y Bwrdd: 1.5 diwrnod y mis

Cadeirydd ARAC: 2.5 diwrnod y mis

### Hyd y tymor

Penodiad cychwynnol: 3 blynedd

### Lleoliad

Mae’r Bwrdd yn cyfarfod mewn gwahanol leoliadau ar draws y DU

## Meini prawf hanfodol ac arbenigedd

**Rhaid i ymgeiswyr allu bodloni'r meini prawf hanfodol canlynol:**

- Gallu amlwg i feithrin diwylliant tîm gweithredol ac anweithredol effeithiol, herio'n adeiladol a chreu consensws ynghylch atebion ymarferol o fewn y Bwrdd a'r sefydliad ehangach;
- Craffter busnes sylweddol a phrofiad o weithio gyda sefydliadau cymhleth a sbarduno newid, a chefndir llwyddiannus ar lefel Bwrdd neu lefel gyfatebol yn y sector preifat, cyhoeddus neu wirfoddol;
- Arddull gydweithredol gyda'r gallu i ymgysylltu'n effeithiol a chyfrannu at drafodaethau'r Bwrdd, ac ysbrydoli hyder Gweinidogion, cyd-aelodau'r Bwrdd, Cyfarwyddwyr Gweithredol, gweithwyr a rhanddeiliaid ym mhob sector.

**Rydym yn chwilio'n benodol am ymgeiswyr sydd ag arbenigedd yn y swyddi canlynol:**

- **Swydd 1 – Aelod Annibynnol o'r Bwrdd a Chadeirydd ARAC** – Arbenigedd amlwg mewn rheolaeth ariannol a risg, archwilio a llywodraethu, gyda phrofiad o gadeirio a/neu fod yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg neu Bwyllgor tebyg.

- **Swydd 2 – Aelod Annibynnol o'r Bwrdd** – Profiad o reoli cyfathrebu strategol gyda barn gadarn, disgresiwn ac ymwybyddiaeth wleidyddol.

# Yr Amserlen

### Hysbysiad yn dod i ben
13 Ionawr 2026

- Rhaid i ymgeiswyr ddangos sut maent yn bodloni'r meini prawf hanfodol. Ewch i'r adran 'Y Broses Recriwtio' i gael gwybod sut mae gwneud cais

### Rhestr fer
26 Ionawr 2026

- Bydd y Panel yn defnyddio'r meini prawf i asesu pob cais ac yn penderfynu pwy sy'n gymwys i gael cyfweliad
- Rhaid ymgynghori â Gweinidogion ynglŷn â'r rhestr fer cyn y gallwn gadarnhau pwy sydd wedi bod yn llwyddiannus yn y cam hwn
- Ni roddir adborth manwl yn ystod y cam hwn

### Cyfweliadau
Wythnos yn dechrau

23 Chwefror 2026

- Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn swyddfeydd Defra, 2 Marsham Street, Llundain
- Bydd y cyfweliad yn para tua 45 munud

### Penderfyniad y Gweinidog
Wythnos yn dechrau

23 Mawrth 2026

- Bydd y Panel yn penderfynu pwy mae'n ystyried sy'n addas i'w benodi. Mater i'r Gweinidogion wedyn yw penderfynu pwy yr hoffent ei benodi
- Efallai y bydd Gweinidogion yn dymuno cwrdd ag ymgeiswyr cyn penderfynu

### Ymgeisydd llwyddiannus yn y swydd
01 Ebrill 2026

## Sut mae gwneud cais

I wneud cais, bydd angen i chi greu cyfrif neu fewngofnodi i "Apply for Public Appointment Service" erbyn y dyddiad cau, sef 13 Ionawr 2026. Ar ôl mewngofnodi i'ch cyfrif, cliciwch 'apply for this role' a dilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrin.

I wneud cais, mae'n ofynnol i bob ymgeisydd gyflwyno'r canlynol:

- CV dim mwy na dwy ochr A4 sy'n nodi eich addysg, cymwysterau proffesiynol, hanes cyflogaeth, ac enwau a manylion cyswllt dau ganolwr
- Dylai datganiad addasrwydd roi tystiolaeth o gryfder a dyfnder eich gallu i fodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd hon. Rhowch enghreifftiau penodol i ddangos sut rydych chi'n bodloni pob un o'r meini prawf (dim mwy na dwy dudalen).
- Gwybodaeth am amrywiaeth
- Gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw fuddiannau allanol neu faterion yn ymwneud ag enw da

I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost i: publicappts@defra.gov.uk



## Y Panel Asesu Ymgynghorol

- **Rachel Muckle** – Dirprwy Gyfarwyddwr Defra, Cadeirydd y Panel
- **Alice Biggins** – Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraeth yr Alban
- **Mike Sheldon** – Cadeirydd Seafish, Cynrychiolydd Seafish
- **Camilla Poulton** – Aelod Bwrdd ar gyfer Byrddau Monitro Annibynnol, Aelod Annibynnol o'r Panel

Caiff Gweinidogion gymorth Paneli i wneud penderfyniadau.

Wrth asesu ymgeiswyr, rôl y Panel yw penderfynu'n wrthrychol pwy sy'n bodloni'r meini prawf dethol cyhoeddedig ar gyfer y rôl, mewn geiriau eraill, pwy sy'n addas i'w penodi i'r swydd.

Rhaid cyflwyno enwau'r holl ymgeiswyr y gellid eu penodi i Weinidogion. Mater i'r Gweinidogion wedyn yw penderfynu ar deilyngdod a gwneud y penodiad terfynol.

## Gwrthdaro rhwng Buddiannau a Diwydrwydd Dyladwy

Os oes gennych unrhyw fuddiannau a allai fod yn berthnasol i waith y Sefydliad Rheoli Morol, ac a allai arwain at wrthdaro gwirioneddol neu ymddangosiadol rhwng buddiannau pe baech yn cael eich penodi, rhowch fanylion yn eich cais. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am hyn a'ch bod yn dymuno trafod hyn ymhellach, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus.

O ystyried natur penodiadau cyhoeddus, mae'n bwysig bod y rheini sy'n cael eu penodi'n aelodau o gyrff cyhoeddus yn cynnal hyder y Senedd a'r cyhoedd. Os oes unrhyw faterion yn eich hanes personol neu broffesiynol a allai, pe baech yn cael eich penodi, gael eu camddehongli, achosi embaras, neu beryglu hyder y cyhoedd yn y penodiad, mae'n bwysig eich bod yn eu dwyn i sylw'r Panel Asesu Ymgynghorol ac yn rhoi manylion y mater(ion) yn eich cais. Wrth ystyried a ydych yn dymuno datgan unrhyw faterion, dylech hefyd ystyried unrhyw ddatganiadau cyhoeddus rydych wedi'u gwneud, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.

Fel rhan o'n gwiriadau diwydrwydd dyladwy, byddwn yn ystyried unrhyw beth sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n ymwneud â'ch ymddygiad neu eich gallu proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys cynnal chwiliadau o ddatganiadau cyhoeddus blaenorol a chyfryngau cymdeithasol, blogiau neu unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael i'r cyhoedd. Efallai y byddwn yn darparu'r wybodaeth hon i'r Panel Asesu Ymgynghorol ac efallai y byddant yn dymuno trafod materion gyda chi os cewch eich gwahodd i gyfweliad. Efallai y bydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu gyda gweinidogion hefyd.

## Cwynion

Mae'r penodiad hwn yn cael ei reoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, i sicrhau ei fod yn cael ei wneud ar sail teilyngdod ar ôl cystadleuaeth deg ac agored. Mae rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd a'r Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus ar gael yn:

- http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/
- Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus

I gael manylion llawn y drefn gwyno ar gyfer penodiadau cyhoeddus, cliciwch ar y ddolen ganlynol a fydd yn mynd â chi i wefan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

https://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/complaints

## Diogelu Data

Mae Defra wedi ymrwymo i ddiogelu preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol ac mae'n gwneud hynny yn unol â chyfraith diogelu data gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Bydd yr holl wybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio i fwrw ymlaen â'r penodiad cyhoeddus a restrir yn y pecyn gwybodaeth hwn. Yn achos gwybodaeth monitro amrywiaeth, mae'n bosibl y byddwn yn tynnu eich enw o'r wybodaeth ac yn ei defnyddio at ddibenion monitro yn unig.

I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd rydym yn casglu ac yn cadw eich gwybodaeth, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd sydd ar gael ar Wefan Penodiadau Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet (https://publicappointments.cabinetoffice.gov.uk) neu gofynnwch am gopi o Hysbysiad Preifatrwydd Penodiadau Cyhoeddus Defra gan publicappts@defra.gov.uk.

## Meini Prawf Anghymhwysedd

Ni ellir eich ystyried ar gyfer penodiad cyhoeddus:

- os byddwch yn mynd yn fethdalwr neu'n gwneud trefniant gyda chredydwyr;
- os yw eich ystâd wedi cael ei secwestru yn yr Alban neu os ydych yn ymgymryd â rhaglen trefnu dyled dan Ran 1 Deddf Trefnu ac Atafaelu Dyledion (Yr Alban) 2002 (DSA 17) fel y dyledwr neu os ydych, o dan gyfraith yr Alban, wedi caniatáu gweithred ymddiriedolaeth i gredydwyr;
- os ydych wedi'ch gwahardd rhag gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni dan Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986;
- os ydych wedi cael eich euogfarnu o drosedd, a bod yr euogfarn heb ddarfod at ddibenion Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (c. 53);
- os ydych yn dod yn destun gorchymyn rhyddhad dyled neu orchymyn cyfyngu methdaliad;
- os na fyddwch yn datgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau.

### Anhunanoldeb
Dylai deiliaid swydd gyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd unig.

### Uniondeb
Ni ddylai deiliaid swydd gyhoeddus roi eu hunain dan unrhyw rwymedigaeth i unigolion neu fudiadau a all geisio dylanwadu arnynt mewn modd amhriodol yn eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud unrhyw benderfyniadau er mwyn sicrhau manteision ariannol neu fanteision materol eraill iddynt eu hunain, eu teulu neu eu ffrindiau. Mae'n rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a pherthnasau.

### Gwrthrychedd
Mae'n rhaid i ddeiliaid swydd gyhoeddus weithredu a gwneud dewisiadau mewn modd diduedd, teg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu na dangos rhagfarn.

### Atebolrwydd
Mae deiliaid swydd gyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u camau a dylent gynnig eu hunain ar gyfer pa bynnag graffu sy'n addas i'w swydd.

### Bod yn Agored
Dylai deiliaid swydd gyhoeddus fod mor agored â phosibl ynglŷn â'r penderfyniadau y maent yn eu cymryd a'u gweithgareddau. Ni ddylai gwybodaeth gael ei chadw oddi wrth y cyhoedd oni bai fod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.

### Gonestrwydd
Dylai deiliaid swydd gyhoeddus ddweud y gwir bob amser.

### Arweinyddiaeth
Dylai deiliaid swydd gyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad. Dylent fynd ati i hyrwyddo a chefnogi'n gadarn yr egwyddorion a bod yn barod i herio ymddygiad gwael lle bynnag y mae'n digwydd.

## 1. Arbenigedd

- Ystyriwch a gweithredwch er budd gorau eich sefydliad a'i amcanion; gan gyflawni'r canlyniadau a ddisgwylir gan yr adran sy'n eich noddi, gweinidogion ac, yn y pen draw, y cyhoedd.
- Ystyriwch genhadaeth a dyletswyddau ehangach yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n eich noddi, ei Adran, a'r Llywodraeth.
- Sicrhewch eich bod yn cydymffurfio â'ch dyletswyddau statudol a gyda Dogfen Fframwaith y sefydliad, a'ch bod yn gweithredu o fewn ei bwerau.
- Dylech arfer diwydrwydd, sgil a gofal rhesymol wrth arfer eich awdurdod a'ch barn.

## 2. Craffu a herio

- Cynnal annibyniaeth ar y weithrediaeth er mwyn gallu craffu ar y rheolwyr, ac mewn cyfarfodydd, cytuno ar nodau ac amcanion a monitro perfformiad ac adrodd ar berfformiad fel bod y bobl sy'n defnyddio eich sefydliad yn cael gwasanaeth o ansawdd uchel.
- Bodloni eich hun ar uniondeb pennu cyllidebau i gyflawni amcanion a gwybodaeth ariannol ac adrodd yn erbyn cyllidebau, a bod rheolaethau ariannol a systemau rheoli risg yn gadarn ac yn amddiffynadwy. Bodloni gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus, gan gynnwys cefnogi'r Swyddog Cyfrifyddu i gyflawni ei ddyletswyddau i ddarparu priodoldeb a gwerth am arian wrth ddefnyddio arian cyhoeddus.
- Hyrwyddo safonau uchel o reoli risg drwy sicrhau bod gan eich sefydliad brosesau adrodd, rheoli a llywodraethu risg effeithiol, arbenigedd risg a goddefiannau risg i reoli risg yn effeithiol.
- Cynrychioli eich sefydliad i'r adran ac i Weinidogion, yn ogystal â sicrhau bod barn Gweinidogion yn cael ei hystyried gan dîm gweithredol y sefydliad, fel y bo'n briodol.

## 3. Cymorth

- Rhoi cymorth i'r bwrdd wrth gynllunio olyniaeth a bod yn barod i gynnig eich hun i gael eich ailbenodi, yn ogystal â hyrwyddo'r angen i gael bwrdd amrywiol.
- Cymryd rhan mewn adolygiadau rheolaidd o'ch sefydliad a'u hyrwyddo, yn ogystal ag effeithiolrwydd y bwrdd ei hun, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddibenion y sefydliad a'i effeithlonrwydd o ran cyflawni'r dibenion hyn. Cymryd rhan yn y broses arfarnu, gan gynnwys hunanfyfyrio ar eich galluoedd eich hun.
- Gwrando'n ofalus ar reolwyr, gofyn cwestiynau priodol iddynt a rhoi cymorth iddynt i annog trafodaeth mewn ffordd sy'n hyrwyddo diwylliant lle mae bob safbwynt yn cael ei glywed, gan gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr unigol a pharchu a gwerthfawrogi arbenigedd y tîm gweithredol.
- Hyrwyddo llwyddiant yr endid gan ystyried buddiannau'r holl aelodau a rhanddeiliaid, a'r holl risgiau

Department
for Environment
Food & Rural Affairs

disability confident LEADER

Regulated by The Commissioner for Public Appointments